Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - 5ed enillydd

# Clwb Gymnasteg Fusion

Er gwaethaf effaith COVID-19, mae clwb Gymnasteg Fusion wedi llwyddo i gyflawni pethau arbennig eleni. Enillodd y clwb 6 medal yn y Gystadleuaeth Artistig i Ddynion ym Mhencampwriaethau Prydain fis Medi. Ar ôl yr holl straen a oedd yn gysylltiedig â sefyll ei arholiadau TGAU yn yr haf, daeth Iwan yn 8fed yn y DU a chipiodd yr 2il wobr ar y 'Pommel horse'. Roedd Kieron yn llwyddiannus iawn yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Agored Prydain i bobl anabl. Cipiodd y fedal aur yng nghystadleuaeth y cylchoedd a'r Barrau Cyflin, a'r fedal arian ar y Llawr a'r 'Pommel Horse'. Mae'r ddau'n ysbrydoliaeth i aelodau iau'r clwb.

